**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Datblygu Gwledig a Deddfwriaeth yn Adran yr Amgylchedd, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi barn deg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021.

Rwyf wedi gwneud y datganiadau sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Mae'r datganiadau hynny i'w gweld yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm hwn.

Lesley Griffiths MS
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
2 Chwefror 2020

# Rhan 1

## 1. Disgrifiad

Bydd Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (yr "offeryn") yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 sy'n gymwys o ran Cymru.

Daw'r offeryn hwn i rym y diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

Mae'r offeryn yn cael ei wneud gan Weinidogion Cymru wrth iddynt arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan baragraff 1(1) ac 11M o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y 'Ddeddf Ymadael'), er mwyn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddargedwir i weithredu'n effeithiol. Mae'n mynd i'r afael hefyd â diffygion eraill ac yn ymdrin â materion sy'n deillio o'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon, neu sy'n gysylltiedig â'r Protocol hwnnw, yng nghytuniad ymadael â'r UE.

Fel y nodir yn natganiad y Gweinidog yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, cynigir mai'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft y dylid ei defnyddio ar gyfer yr offeryn hwn.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae angen diwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o gyfraith yr UE er mwyn sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol ar ôl i'r DU adael yr UE.

Roedd y Ddeddf Ymadael yn trosi'r rhan fwyaf o gyfraith yr UE sy'n uniongyrchol gymwys, fel yr oedd yn union cyn y diwrnod y daeth y cyfnod gweithredu i ben, yn gyfraith ddomestig ac yn gyfreithiau wedi'u cadw a wnaed yn y DU ac a oedd yn gweithredu rhwymedigaethau'r UE. Roedd y Ddeddf Ymadael hefyd yn creu pwerau dros dro i wneud is-ddeddfwriaeth er mwyn mynd i'r afael â diffygion sy'n codi o'r ffaith bod y DU wedi ymadael 'r UE. Mae Adran 11 a pharagraffau 1 ac 11M o Atodlen 2 i'r Ddeddf Ymadael yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru fynd i'r afael â diffygion ac ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â'r Protocol ar Iwerddon/Gogledd Iwerddon.

Yn unol â gofynion y Ddeddf Ymadael, mae Lesley Griffiths, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, wedi gwneud y datganiadau perthnasol fel y manylir arnynt yn Rhan 2 o'r Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

4. **Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Diben yr offeryn hwn yw gwarchod bioddiogelwch a chefnogi masnach drwy sicrhau bod mesurau rheoli ffytoiechydol effeithiol yn parhau i weithredu rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr ac o fewn Prydain Fawr mewn perthynas â Nwyddau Cymwys. Mae'n hwyluso'r polisi o fynediad dirwystr i'r farchnad mewn perthynas â Nwyddau Cymwys.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau er mwyn caniatáu symud Nwyddau Cymwys i Brydain Fawr o dan Basbort Planhigion yr UE. Unwaith y bydd y Nwyddau Cymwys ym Mhrydain Fawr, caiff Pasbort Planhigion yr UE barhau i gyd-deithio â nhw.

***Yr hyn y mae'r offeryn yn ei wneud***

Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn ym maes iechyd planhigion:

Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) 2020 a roddodd effaith i Reoliad (UE) 2016/2031 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau amddiffynnol yn erbyn plâu planhigion a Rheoliadau (UE) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir er mwyn sicrhau bod cyfraith ar fwyd a phorthiant, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion, yn cael eu cymhwyso, i'r graddau y maent yn gymwys i'r rheolau y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2)(g).

Mae Llywodraeth y DU yn gwneud diwygiadau sy'n gysylltiedig â'r offeryn hwn ac sy'n cynnwys diwygiadau cyfatebol i is-ddeddfwriaeth gyfatebol sy'n gymwys i Loegr, yn Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

Bydd y diwygiadau yn yr offeryn hwn yn sicrhau bod rheolaethau iechyd planhigion yn parhau i weithredu ym Mhrydain Fawr, a rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr, mewn perthynas â Nwyddau Cymwys. Byddant yn galluogi camau gorfodi, pan fo hynny’n briodol, mewn perthynas â nwyddau o'r fath. Mae'r offeryn hwn yn ategu'r polisi ar fynediad dirwystr i'r farchnad ar gyfer nwyddau cymwys Gogledd Iwerddon, mae’n helpu i egluro sut mae'r mynediad hwnnw’n gweithredu ar gyfer iechyd planhigion ac yn caniatáu i gamau gorfodi gael eu cymryd ym Mhrydain Fawr os caiff planhigion a chynhyrchion planhigion sy'n Nwyddau Cymwys eu symud i Brydain Fawr, ac oddi mewn iddi, ac eithrio mewn modd a ganiateir.

Pe na bai'r is-ddeddfwriaeth ddomestig hon yn cael ei diwygio, byddai'n cynnwys diffygion a fyddai'n atal Gweinidogion Cymru rhag gallu cyflawni deddfwriaeth ymarferol ar iechyd planhigion. Mae'r offeryn yn cael ei wneud drwy arfer pwerau o dan y Ddeddf Ymadael i gywiro'r diffygion hynny. Ni fyddai'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei diwygio yn cael yr effaith gywir oherwydd na fyddai'n adlewyrchu'r newid yn y sefyllfa ddeddfwriaethol ar ôl i'r DU

dynnu'n ôl o'r Undeb Ewropeaidd ac ar ôl cymhwyso'r Protocol yng Ngogledd Iwerddon.

**5. Ymgynghori**

Nid ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ynglŷn â'r diwygiadau a wnaed gan yr offeryn hwn oherwydd eu bod yn welliannau technegol sy’n ymwneud â gweithredu yn hytrach nag yn newidiadau polisi.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Nid oes unrhyw effaith ar fusnesau, elusennau, cyrff gwirfoddol nac ar y sector cyhoeddus o ganlyniad i newidiadau polisi a gyflwynir o dan yr offeryn hwn.

Felly, ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol oherwydd nad oes unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r gwelliannau y manylir arnynt yn yr offeryn hwn.

# Atodiad: Datganiadau o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

### Rhan 1: Tabl Datganiadau o dan Ddeddf 2018

Mae'r tabl hwn yn nodi'r datganiadau y gallai fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru eu gwneud o dan Ddeddf 2018. Mae'r tabl hefyd yn nodi'r datganiadau hynny y gallai fod yn ofynnol i Weinidogion y Goron eu gwneud o dan Ddeddf 2018, y mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i'w darparu hefyd pan fo angen. Mae'r datganiadau gofynnol i'w gweld yn Rhan 2 o'r atodiad hwn.

| Datganiad | Lle y mae'r gofyniad | I bwy y mae'n gymwys | Yr hyn sy'n ofynnol |
|---|---|---|---|
| Priodoldeb | Is-baragraff (2) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad nad yw'r OS yn gwneud mwy nag yr hyn sy'n briodol. |
| Rhesymau Da | Is-baragraff (3) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i esbonio'r rhesymau da dros wneud yr offeryn a bod yr hyn sy'n cael ei wneud yn gam rhesymol. |
| Cydraddoldeb | Is-baragraffau (4) a (5) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud | Datganiad i esbonio pa ddiwygiadau, diddymiadau neu ddirymiadau, os o gwbl, sy'n cael eu gwneud i Ddeddfau Cydraddoldeb 2006 a 2010 ac i ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2. | Datganiad bod y Gweinidog wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac ymddygiad arall a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. |
| Esboniadau | Is-baragraff (6) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 | Datganiad i esbonio'r offeryn, nodi'r gyfraith berthnasol cyn y diwrnod ymadael, esbonio effaith yr offeryn ar gyfraith yr UE a ddargedwir a rhoi gwybodaeth am ddiben yr offeryn, e.e. ai dim ond mân newidiadau neu newidiadau technegol a fwriedir i gyfraith yr UE a ddargedwir. |
| Troseddau | Is-baragraffau (3) a (7) o baragraff 28, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a 23(1) neu sy'n arfer pwerau yn Atodlen 2 ar y cyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2. | Datganiad yn nodi'r 'rhesymau da' dros greu trosedd, a'r gosb gysylltiedig. |
| Is-ddirprwyo | Paragraff 30, Atodlen 7 | Yn gymwys i Weinidogion y Goron sy'n arfer pwerau yn adrannau 8(1), 9 a pharagraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol sy'n arferadwy nid gan un o Weinidogion y Goron neu Awdurdod Datganoledig.<br><br>Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i wneud yr un datganiad wrth arfer pwerau yn Atodlen 2 neu baragraff 1 o Atodlen 4 i greu pŵer deddfwriaethol sy'n arferadwy nid gan un o Weinidogion y | Datganiad i egluro pam mae'n briodol creu pŵer is-ddirprwyedig o'r fath. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Goron neu Awdurdod Datganoledig | |
| Brys | Is-baragraff (2) ac (8) o baragraff 7, Atodlen 7 | Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau yn Rhan 1 o Atodlen 2 ond yn defnyddio'r weithdrefn frys ym mharagraff 7 o Atodlen 7 | |

# Rhan 2

## Datganiadau sy'n ofynnol wrth ddefnyddio pwerau galluogi o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018

1. **Datganiad priodoldeb**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, nid yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 yn gwneud mwy na'r hyn sy'n briodol".

Mae hyn yn wir oherwydd bod yr offeryn hwn yn cynnwys diwygiadau i sicrhau bod rheolaethau iechyd planhigion yn parhau i weithredu mewn perthynas â nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon sy'n symud o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr, ac o fewn Prydain Fawr, ar ôl i'r Cyfnod Pontio ddod i ben.

**2. Rhesymau da**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Yn fy marn i, mae rhesymau da dros y darpariaethau yn yr offeryn hwn, ac rwyf wedi dod i'r casgliad eu bod yn ffordd resymol o weithredu".

Y rhesymau hynny yw bod pryder ymhlith y cyhoedd ynghylch bioddiogelwch ac y dylai'r Llywodraeth o leiaf gynnal y camau diogelu sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**3. Cydraddoldeb**

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn:

"Nid yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 yn diwygio, diddymu nac yn dirymu darpariaeth neu ddarpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2006 na Deddf Cydraddoldeb 2010 nac is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Deddfau hynny."

Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gwneud y datganiad a ganlyn ynghylch defnyddio pwerau deddfwriaethol yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018:

"Mewn perthynas â Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021, rwyf i, Lesley Griffiths, wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i ddileu

gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 neu oddi tani."

**4. Esboniadau**

Mae'r datganiad esboniadau wedi'i wneud yn adran 4 (Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael) ym mhrif gorff y memorandwm esboniadol hwn.

**5. Troseddau**

Ddim yn berthnasol/ofynnol.

**6. Is-ddirprwyo deddfwriaethol**

Ddim yn berthnasol/ofynnol.

**7. Brys**

Ddim yn berthnasol/ofynnol.